Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Gwarcheidiaeth Eiddo a Materion Ariannol Unigolion Coll

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 23 Mawrth 2015

# Gwarcheidiaeth Eiddo a Materion Ariannol Unigolion Coll

Ymateb i'r ymgynghoriad

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.**
**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

## Crynodeb Gweithredol

Dan y ddeddf bresennol, nid oes modd i deuluoedd unigolion coll wneud trefniadau eraill nes bod eu hanwyliaid yn gallu cael eu datgan yn farnwrol eu bod wedi marw. Gall hyn fod yn flynyddoedd ar ôl iddynt fynd ar goll. Pan fydd unigolyn yn diflannu, mae ei eiddo, i bob pwrpas, yn cael ei adael heb berchennog. All neb ei amddiffyn ar ei ran. Gall hyn ddwysáu gofid y teuluoedd ac anwyliaid, ac os oes gan yr unigolyn coll ddibynyddion, byddant yn gorfod mynd heb y cymorth ariannol y byddent wedi disgwyl ei dderbyn gan yr unigolyn coll, er mwyn talu eu costau bob dydd, a mwy.

Ym mis Awst 2014, ymgynghorodd y Llywodraeth ar greu statws cyfreithiol newydd i warcheidwad eiddo a materion ariannol yr unigolyn coll. Roedd yr ymateb yn gefnogol iawn i'r cynigion dros dro.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid creu statws cyfreithiol newydd i warcheidwad unigolyn coll ac, os felly, ar ba delerau. Roedd y cynigion dros dro wedi eu seilio yn gyffredinol ar ddeddfwriaeth gwledydd eraill, a chawsant eu datblygu gyda'r brif elusen, Missing People, a rhanddeiliaid eraill. Roedd yr ymateb yn hynod o gadarnhaol, o ran yr egwyddor o warcheidwaeth a'r cynigion dros dro ar gyfer ei weithredu.

Mae'r Llywodraeth yn gefnogwr brwd o'r cynllun i greu statws cyfreithiol newydd i warcheidwad eiddo a materion ariannol yr unigolyn coll, ac yn ymrwymedig i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

Dyma brif nodweddion y cynllun arfaethedig:

- Bydd gofyn i'r gwarcheidwad weithredu er budd yr unigolyn coll, ac yn y cyswllt hwn bydd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sy'n debyg i rai ymddiriedolwr.
- Bydd y gwarcheidwad yn cael ei oruchwylio gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a bydd gofyn iddo ffeilio cyfrifon yn yr un ffordd â Dirprwy a benodir o dan Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Bydd gwarcheidwad yn cael ei benodi gan lys ar gais unigolyn â digon o fuddiant. Gall y penodiad fod yn un cyffredinol (ac felly gall y gwarcheidwad ond wneud beth a fyddai'r unigolyn coll wedi gallu ei wneud) neu'n un cyfyngedig.
- Dylai unrhyw un allu gwneud cais i gael ei benodi fel gwarcheidwad ar yr amod bod ganddo ef neu hi ddigon o fuddiant ond ni ddylai ei fuddiant ef neu hi wrthdaro â buddiannau'r unigolyn coll.
- Dylai'r penodiad fod am gyfnod o hyd at bedair blynedd gyda'r posibilrwydd o wneud cais am estyniad am hyd at bedair blynedd arall.

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a bydd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu manylion y ddeddfwriaeth gyda'r nod o'i rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

## Crynodeb o'r ymatebion

1. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Roedd tua thraean o'r rheini gan y cyhoedd, gan gynnwys teuluoedd unigolion coll a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw. Roedd traean arall gan gyfreithwyr a'u cyrff cynrychioladol. Roedd y traean arall gan gyrff cyhoeddus, y sector gwirfoddol, cynrychiolwyr busnesau ac Aelodau Seneddol, gan gynnwys y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion sydd wedi Rhedeg i Ffwrdd neu sydd ar Goll, a'r Grwpiau Amlbleidiol ar Yswiriant a Gwasanaethau Ariannol.

2. Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi i weld a oedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer cyflwyno system i ddelio ag eiddo a materion unigolion coll. Cawsant hefyd eu dadansoddi i edrych am safbwyntiau ar sut y byddai'r cynlluniau yn gweithio'n ymarferol, ac a fyddent yn bodloni'r amcanion arfaethedig. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i awgrymiadau o atebion eraill i'r problemau dan sylw, ac i ffynonellau o dystiolaeth bellach (neu ffynonellau o dystiolaeth) o'r problemau a achosir gan ddiflaniad.

3. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn hynod o gadarnhaol ar gyfer creu statws gwarcheidwaeth newydd: roedd y deugain ymatebwr yn gytûn fod angen diogelu eiddo a materion ariannol unigolyn coll; ac roedd pawb ond un yn gytûn y byddai creu statws newydd yn ddull addas o wneud hynny. Roedd y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd ynghylch y fframwaith arfaethedig yn cyfeirio'n bennaf at bwyntiau manwl. Ni chafwyd tystiolaeth newydd arwyddocaol o'r problemau na'u heffeithiau. Byddwn, fodd bynnag, yn ystyried y sylwadau a wnaethpwyd wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu.

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth/ Information Policy Team, Yr Archifau Cenedlaethol/The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon neges e-bost at:

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i missing_persons_guardianship@justice.gsi.gov.uk.